Arddangosfa

Steven Jones

Golygfeydd o Lwybr Arfordirol Ynys Môn

Gorffennaf 10 – Medi 5, 2010

Cynhelir arddangosfa o waith yr artist Steven Jones yn Oriel Ynys Môn, Llangefni rhwng Gorffennaf 10 a Medi 5, 2010.

Treuliodd Steven Jones y rhan helaeth o'i blentyndod yn Llysfaen yng ngogledd Cymru. Yma, wedi ei amgylchynu gan olygfeydd panoramig o'r tirlun o'i gwmpas, cafodd ei ysbrydoli i fraslunio a phaentio.

Ar ôl astudio yng Ngholeg Celf Wrecsam aeth ymlaen i dreulio 4 mlynedd yn Llundain yn gweithio fel darlunydd annibynnol i nifer o gleientiaid yn cynnwys 'BBC Publications' , 'Daily Mail', 'Sunday Telegraph' a'r 'TV Times'.

Ym 1985, symudodd yn ôl i ogledd Cymru i weithio fel artist. Yn 1990 agorodd ei oriel ei hun gan werthu ei baentiadau drwy Brydain a thu hwnt.

Dros y 4 blynedd diwethaf, bu Steven Jones yn peintio golygfeydd o Lwybr Arfordirol Ynys Môn – dros 125 milltir ohono i gyd.

"I ddechrau prynais lyfrau cerdded er mwyn gallu dilyn llwybr arfordirol Ynys Môn ynghyd â gweld y llefydd hynny oedd yn anghyfarwydd i mi. Daeth yn amlwg i mi yn eitha' buan bod nifer o lefydd rhyfeddol a golygfeydd ysblennydd i'w gweld yn unig wrth gerdded y llwybr arfordirol. Roeddwn yn llawn cyffro wrth gerdded tua'r pellter er mwyn cael gweld beth oedd yn fy nisgwyl wrth droi'r gornel neu fynd dros y bryn", meddai Steven Jones.

Mae'r lluniau hyn yn dal heddwch Afon Menai a hefyd nodweddion eraill yr Ynys – y traethau melyn distaw, y pyrth a'r clogwyni a'r creigiau rhyngddynt.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden, y Cyng Bob Parry OBE, **"Mae'r arddangosfa hon yn portreadu gwir harddwch a llonyddwch yr ynys".**

"Mae arddangosfa Steven Jones o dros 140 o beintiadau wedi eu gosod mewn ffordd bwrpasol er mwyn mynd a ni a'r daith o amgylch arfordir drawiadol Ynys Môn", meddai Pat West, Prif Swyddog – Amgueddfeydd, Diwylliant ac Archifau, Cyngor Sir Ynys Môn.

I gydfynd â'r arddangosfa mae llyfr arbennig – 'Llwybr Arfordirol Môn – 21 Taith gerdded ddarluniadol' (cyhoeddwyd gan: Gwasg Carreg Gwalch) ar werth yn siop yr Oriel -Jac Do, am £14. Mae printiadau o rai o'r gweithiau yn yr arddangosfa hefyd ar werth yn siop Jac Do. Gellir hefyd gweld y gwaith gwreiddiol ar www.stevenjones.freeuk.com

Ar Gorffennaf 18 a 25 bydd Steven Jones yn cynnal sgwrs a sioe sleidiau yn Oriel Ynys Môn ar Ddarluniau a Chelf Gain. Bydd y sioe sleidiau yn cychwyn am 2.00 yh ac yn gorffen am 4.30 yh – y gôst fydd £5 y pen. Mae archebu lle yn angenrheidiol a gellir gwneud hyn drwy gysylltu ac Oriel Ynys Môn ar 01248 724444.

Noson Agoriadol: Gorffennaf 9, 2010 am 7.00 yh
Oriau Agor: Dyddiol 10.30 yb – 5.00 yh
Mynediad am ddim

Oriel Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TQ
Ffôn: 01248 724444